

## CYFARFOD Y CYNGOR 18 MEDI 2019

### DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG SYDD WEDI'I AMLINELLU YN EITEM 11 (B) O AGENDA'R CYNGOR

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau'r Cyngorwyr P.Jarman, G.Davies, S.Rees Owen, M. Weaver, J.Williams, A.Cox, J.Davies, J.Cullwick, L.Jones, E.Stephens, H.Fychan, D.Grehan, K.Morgan, E.Webster, D.Macey, A.Chapman ac S.Evans i'r Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i amlinellu yn eitem 11B o agenda'r Cyngor sy'n sefyll yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol J Bonetto ac M Webber:

Ar ôl bron i ddegawd o gyni cyllidol yn y sector cyhoeddus a'r toriadau milain ar draws cyllid y sector cyhoeddus a orfodwyd gan Lywodraeth San Steffan yn olynol dan arweiniad y Ceidwadwyr, mae'r Cyngor yma'n nodi'r golled syfrdanol o 60 ceiniog allan o bob £1 a roddwyd i awdurdodau lleol gan Lywodraeth San Steffan dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

Mae'r Cyngor yma'n awyddus i gofnodi sut mae'r trefniant anghynladwy yma'n rhoi baich sylweddol ar y gwasanaethau rheng flaen hanfodol sy'n cael eu darparu gan Gyngorau, ac yn parhau i wthio awdurdodau lleol tuag at bwynt argyfwng wrth i'r gofynion ar wasanaethau fel gofal cymdeithasol ac addysg barhau i gynyddu.

Yn rhan o hyn, mae staff gweithgar y sector cyhoeddus hefyd wedi dioddef trwy flynyddoedd o atal cyflogau, sydd wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cyflogau mewn termau real, er gwaethaf llwythi gwaith cynyddol ac ansicrwydd o ran swyddi. O ganlyniad, hoffai'r Cyngor yma gofnodi ei ddiolch am y cyfraniad aruthrol y mae staff Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ei wneud bob dydd wrth ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl mewn amgylchiadau heriol.

Mae'r Cyngor yma o'r farn:

- Bod maint y cyni wedi cyrraedd pwynt lle gallai dyfarnu codiad cyflog cyfiawn hyd yn oed fygwth gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen.
- O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth y DU [ychwanegu...a Llywodraeth Cymru] gymryd cyfrifoldeb ac ariannu cynnydd teg yng nghyflog staff y Cyngor yn llawn, a pheidio â throsglwyddo'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Cefnogi ein cydweithwyr mewn Undebau Llafur i fynnu setliad cyflog teg, wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer staff y Cyngor.
- Galw ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a CLIL i gyflwyno achos i Lywodraeth y DU [ychwanegu...a Llywodraeth Cymru].
- Ysgrifennu at y Canghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol [ychwanegu...dros Gymru] i alw am ariannu codiad cyflog i weithwyr llywodraeth leol gydag arian newydd gan Lywodraeth [dileu – San Steffan] [ychwanegu... y DU].
- Cyfarfod [ychwanegu... yn drawsbleidiol] â chynrychiolwyr undebau lleol y Cydgyngor Cenedlaethol i ddangos cefnogaeth i'r hawliad am gyflog.
- Parhau i annog holl weithwyr y Cyngor i ymuno ag undeb llafur.

## **Bydd y cynnig diwygiedig yn darllen fel hyn:**

Ar ôl bron i ddegawd o gyni cyllidol yn y sector cyhoeddus a'r toriadau milain ar draws cyllid y sector cyhoeddus a orfodwyd gan Lywodraeth San Steffan yn olynol dan arweiniad y Ceidwadwyr, mae'r Cyngor yma'n nodi'r golled syfrdanol o 60 ceiniog allan o bob £1 a roddwyd i awdurdodau lleol gan Lywodraeth San Steffan dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

Mae'r Cyngor yma'n awyddus i gofnodi sut mae'r trefniant anghynladwy yma'n rhoi baich sylweddol ar y gwasanaethau rheng flaen hanfodol sy'n cael eu darparu gan Gyngorau, ac yn parhau i wthio awdurdodau lleol tuag at bwynt argyfwng wrth i'r gofynion ar wasanaethau fel gofal cymdeithasol ac addysg barhau i gynyddu.

Yn rhan o hyn, mae staff gweithgar y sector cyhoeddus hefyd wedi dioddef trwy flynyddoedd o atal cyflogau, sydd wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cyflogau mewn termau real, er gwaethaf llwythi gwaith cynyddol ac ansicrwydd o ran swyddi. O ganlyniad, hoffai'r Cyngor yma gofnodi ei ddiolch am y cyfraniad aruthrol y mae staff Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ei wneud bob dydd wrth ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl mewn amgylchiadau heriol.

Mae'r Cyngor yma o'r farn:

- Bod maint y cyni wedi cyrraedd pwynt lle gallai dyfarnu codiad cyflog cyfiawn hyd yn oed fygwth gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen.
- O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb ac ariannu cynnydd teg yng nghyflog staff y Cyngor yn llawn, a pheidio â throsglwyddo'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Cefnogi ein cydweithwyr mewn Undebau Llafur i fynnu setliad cyflog teg, wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer staff y Cyngor.
- Galw ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a CLIL i gyflwyno achos i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- Ysgrifennu at y Canghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru i alw am ariannu codiad cyflog i weithwyr llywodraeth leol gydag arian newydd gan Lywodraeth y DU.
- Cyfarfod yn drawsbleidiol â chynrychiolwyr undebau lleol y Cydgyngor Cenedlaethol i ddangos cefnogaeth i'r hawliad am gyflog.
- Parhau i annog holl weithwyr y Cyngor i ymuno ag undeb llafur.

\*\*\*